**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 8 Chwefror 2019 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | L G Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Richard Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: B J Rowlands, L V Walton

---

## 61 Datgeliadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd C Anderson – Personol – Cofnod Rhif: 68 - Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am Drwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - PJH – Rwy'n adnabod yr ymgeisydd. Gadawodd y Cynghorydd C Anderson y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

Y Cynghorydd J P Curtice – Personol – Cofnod Rhif: 68 - Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am Drwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - PJH – Rwy'n adnabod yr ymgeisydd. Gadawodd y Cynghorydd J P Curtice y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

## 62 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2019 yn gofnod cywir.

## 63 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 64 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – MNI.

Dywedodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu, nad oedd MNI wedi dod i'r cyfarfod ac nad oedd wedi rhoi rheswm dros ei absenoldeb.

Rhoddwyd cyngor cyfreithiol gan y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor.

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag MNI.

Ymhelaethodd yr achwynydd ar y sylwadau ysgrifenedig ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1. Ymdrin â'r mater yn absenoldeb MNI;
2. **Dirymu** trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat MNI; ac
3. Nid oes angen cymryd mwy o gamau gweithredu mewn perthynas â thrwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat MNI;

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Penderfynodd y pwyllgor nad oedd MNI yn berson addas a phriodol. Roedd pryderon ynghylch ei onestrwydd o ran codi tâl gormodol a chymryd llwybrau hwy, ac roedd nifer o gwynion o achosion blaenorol gerbron y pwyllgor a chan y cwmni yr oedd yn gweithio iddo.

**65 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am Drwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - CSL**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar gefndir cais CSL am gael trwydded gyfyngedig i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Esboniodd CSL yr amgylchiadau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** gwrthod cais CSL am drwydded gyfyngedig i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Nid oedd amodau'r Canllawiau Trwyddedu, sef peidio â throseddu am 3 blynedd yn dilyn adfer trwydded, wedi'u bodloni. Nid oedd aelodau'r pwyllgor yn argyhoeddedig o resymau lliniarol CSL a theimlwyd na allent wyro oddi wrth y canllawiau.

**66 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – DK.**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â DK.

Esboniodd DK yr amgylchiadau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** anfon llythyr rhybuddio terfynol at DK ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**67 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am Drwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - MJW**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais MJW am drwydded gyfyngedig i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Esboniodd MJW yr amgylchiadau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

**Cymeradwyo** cais MJW am drwydded gyfyngedig i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, ac y dylid cyflwyno llythyr rhybuddio ynghylch y safonau a ddisgwylir.

## 68 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am Drwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - PJH

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais PJH am drwydded gyfyngedig i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Esboniodd PJH yr amgylchiadau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais PJH am drwydded gyfyngedig i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, ac y dylid cyflwyno llythyr rhybuddio ynghylch y safonau a ddisgwylir.

Daeth y cyfarfod i ben am12.00pm

**Cadeirydd**